

# Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Mai 13eg 2014 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Jean Roberts (Cadeiryddes), Arwel Davies, Geraint Jones, Geraint Davies, Gwynedd Jones, Gwynfryn Williams a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rhys Richards Gwilym Davies, Euros Puw a'r Cyng. Elwyn Edwards.

## Cyfarfod Blynyddol.

### Cyfrifon 2013-14.

Cafwyd adroddiad o'r cyfrifon am y flwyddyn 2013-14 gan y clerch, a chafwyd hwy yn gywir. Adroddodd y clerch bod y Ffurflen Archwiliad Blynyddol wedi cyrraedd ac roedd angen mynd a'r cyfrifon i Ddolgellau ar y 30/5/14 i gael eu archwilio.

### Asesiad Risg a Rheoliadau Mewnol.

Cytunwyd bod yr asesiad risg a'r system rheoliadau mewnol presennol yn gywir. Trafodwyd y newidiadau diweddar i'r Ddeddf Llywodraeth Lleol ynglyn a'r angen i gael oleiaf dau lofnod a'r siec. Cytunwyd i beidio newid canllawiau mewnol y Cyngor a chadw at gael tri lofnod ar bob siec y byddai'r Cyngor yn ei ysgrifennu.

## Cyfarfod Misol.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

### Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

#### Llythyrau diolch.

Derbyniwyd llythyrau yn diolch am y cyfraniadau ariannol a ddosbarthwyd gan y Cyngor ym mis Mawrth gan Eisteddfod Talybont, Cylch Meithrin/Ti a Fi Maesywaen, Neuadd Y Parc, CFFI Meirionnydd, Ambiwylans Awyr Cymru, Tŷ'r Eos, Sioe Ardal Maesywaen, Cantref, Pwyllgorau Apêl Lleol Urdd Gobaith Cymru - Y Parc a Rhyduchaf, Maesywaen, Llidiardau a'r Arenig.

#### Ysgol Y Parc.

Roedd cyfreithiwr Cyngor Gwynedd wedi anfon at y Cyngor i gadarnhau bod dogfennau gwerthiant yr adeilad yn cael eu paratoi gan yr adran gyfreithiol. Gofynnwyd i'r clerch ofyn am gopiau dwyieithog o' dogfennau a chysylltu gyda Phwyllgor Cymdeithas y Parc pan fyddant yn barod i'w astudio.

Ymateb i'r cwynion a anfonwyd i Gyngor Gwynedd:-

#### Gwter yn tagu ger Fedw Arian Isaf, Bala.

Roedd y clerch wedi ail gysylltu â'r Adran Briffyrdd ac roedd swyddog am ymweld â'r safle cyn diwedd yr wythnos.

#### Grid yn rhydd ger Cae Gwernog, Celyn.

Roedd y grid wedi cael ei drwsio ond gan fod cerbydau trwm yn mynd drosto mor aml efallai byddai'n rhaid gwneud gwelliannau pellach yn y dyfodol.

#### Dwr ar y ffordd rhwng Pant Neuadd a Beudy Newydd, Parc.

Roedd swyddogion y Cyngor wedi egluro i'r clerch bod dim cyllid ar hyn o bryd i wneud y gwaith strwythol angenrheidiol. Gofynnwyd i'r clerch i anfon yn nol i egluro y byddai glanhau'r mwd o'r gwteri yn arbed rhan fwyaf o'r dŵr rhag llifo i'r ffordd.

## **Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

### **a) Partneriaeth Penllyn/ Pum Plwy Penllyn**

- i) Copi o gofnodion cyfarfodydd mis Mawrth a mis Ebrill a chafwyd crynodiad o'r hyn a drafodwyd gan y clerc.
- ii) Derbyniwyd llythyr yn diolch i'r Cyngor am eu cefnogaeth i gynllun yr Henblas ac fel cydnabyddiaeth o gyfraniad y Cyngorau Cymuned a Thref roedd cynnig i'r Cyngorau ddefnyddio un o'r swyddfeydd ar gyfer eu gwaith. Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr o ddiolch i'r Panel.
- iii) Derbyniwyd cadarnhad gan y clerc bod y cytundeb i ariannu'r wefan wedi cael ei arwyddo a'r cwmni lleol HG Webb Designs oedd wedi cael eu dewis i greu'r wefan. Cytunwyd i'r clerc gario'n mlaen i drafod y gwaith ar ran y Cyngor a thrafodwyd yr hyn a oedd angen ei gynnwys ar y wefan.

### **b) Cyngor Gwynedd**

- i) Derbyniwyd gwybodaeth am y gwaharddiad trafniadaeth trwodd dros dro a oedd yn effeithio'r ffordd yn Llidiardau er mwyn galluogi gwaith adnewyddu ar y gwifrau trydan uwchben y ffordd.
- ii) Derbyniwyd taflenni gwybodaeth a oedd yn egluro trefniadau newydd y casgliadau gwastraff, ailgylchu a gwastraff bwyd.

### **c) Un Llais Cymru.**

- i) Llythyr yn diolch i'r Cyngor am ail ymaelodi a ffurflen i anfon manylion cynrychiolwyr y Cyngor ar Bwyllgorau Ardal Meirionnydd. Cytunwyd i beidio enwebu person penodol ond anfon cynrychiolydd os oedd angen pan fyddai'r Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.
- ii) Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal yn Ninas Mawddwy ar y 19/5/14.

### **ch) Amrywiol**

- i) Heddlu Gogledd Cymru - Derbyniwyd gwybodaeth am eu hymgyrch diweddaraf 'Darwen' i geisio lleihau'r nifer o ddamweiniau difrifol a oedd yn ymwneud a beicwyr modur ar ffyrdd Gogledd Cymru.
- ii) Gwersyll yr Urdd Glan-Ilyn – Gwahoddiad i'r Noson Agored, 3/5/14.

## **Ceisiadau Cynllunio.**

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol a oedd yn ymwneud a Chanolfan Treftadaeth Byd Mary Jones. Eglwys Beuno Sant, Llanycil :-

NP5/72/LB143D – Adeiladu derbynfa newydd.

NP5/72/LB143E - Caniatâd Adeilad Rhestredig am newidiadau mewnol ac allanol.

NP5/72/LB143F – Cynllun goleuadau allanol arfaethedig.

NP5/72/LB143G – Cynllun tirlunio arfaethedig i ganolfan treftadaeth ac adeilad derbynfa newydd

Cytunwyd i gefnogi'r ceisiadau.

## **Materion Ariannol.**

Derbyniwyd rhandal cyntaf y Praesept - £1,650

Derbyniwyd ad-daliad TAW o £12.00

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Zurich (Yswiriant)

Cwmni Pum Plwy Penllyn Cyf (Cyfraniad i'r Henblas)

## **Materion Lleol.**

Gwasanaeth Meddygol Allan o Oriau.

Trafodwyd y posibilrwydd o sefydlu gwasanaeth rhwng y meddygfeydd lleol i arbed cleifion deithio i Ddolgellau neu Wrecsam yn ystod y nos neu'r penwythnosau. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r Bwrdd Iechyd i drafod y mater.

Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-

- i) Ffos ger Glan Donnau, Parc - roedd angen clirio'r ffos gan fod y dŵr yn gorlifo i'r ffordd.
- ii) Cyffordd Llanycil - roedd cerbydau yn gyrru i lawr y rhiw i gyfeiriad y gyffordd ac roedd pryder am ddiogelwch perchnogion yr anheddau gerllaw pan fyddant yn ceisio dod mewn i'r ffordd gyda'i ceir.